Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Rhos

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Rhos

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Rhos |
| Statws y perchennog | Unique Care Homes Ltd., cwmni cyfyngedig preifat |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 15 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 15 |
| Dyddiad ymweliad blaenorol Estyn | 04/12/2023 |
| Dyddiad dechrau'r ymweliad | 13/11/2024 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ysgol y Rhos wedi'i lleoli ar dir dau gaban gwyliau blaenorol mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug. Mae'r perchennog, Unique Care Homes Ltd., yn gwmni cyfyngedig preifat, sy'n cynnal pum cartref plant yn Wrecsam a Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer 16 o ddisgyblion rhwng 8 ac 16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan lawer o'r plant hanes o fethiannau o ran lleoliad a chael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd.

Mae 15 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw yn y cartref plant a berchnogir gan y sefydliad ehangach. Caiff mwyafrif y plant eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn cynnwys Ynys Môn, Conwy, Caerfyrddin a Gwynedd. Caiff lleiafrif o blant eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan bron bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) neu gyfwerth.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2023. Fe'i cynorthwyir gan bedwar o athrawon amser llawn, parhaol a chymwys. Mae staff o gartref plant y cwmni yn cefnogi'r disgyblion yn yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio ochr yn ochr â dau seicotherapydd sy'n gweithio ar yr un safle.

Cynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Rhagfyr 2023. Yn yr arolygiad hwn, nid oedd yr ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru). I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd isod ar gyfer pob safon:

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid oedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, roedd yn ofynnol i'r perchennog:

- Sicrhau bod addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd i) yn adlewyrchu nodau ac ethos yr ysgol, a ii) yn annog parch at bobl eraill, gan roi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf 2010 **[2(2)(d)]**
- Sicrhau bod staff addysgu yn dangos dealltwriaeth dda o dueddiadau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi, **[2(3)(d)]**
- Dangos bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, a bod staff addysgu yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau hyn i gynllunio addysgu fel bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd **[2(3)(g)]**
- Sicrhau bod gan yr ysgol annibynnol fframwaith ar gyfer gwerthuso perfformiad disgyblion, trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol annibynnol ei hun, fel y'u darparwyd i rieni neu normau cenedlaethol, neu i'r naill a'r llall **[3]**

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Nid oedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, roedd yn ofynnol i'r perchennog sicrhau bod egwyddorion yn cael eu hyrwyddo'n weithredol sydd:

- yn galluogi disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a pharchu cyfraith sifil a throseddol,
- yn annog parch at bobl eraill, gan roi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf 2010,
- yn rhoi gwybodaeth gyffredinol, eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach,
- yn cynorthwyo disgyblion i gaffael gwerthfawrogiad a pharch am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill mewn ffordd sy'n hyrwyddo mwy o oddefgarwch a chytgord rhwng gwahanol draddodiadau diwylliannol **[4(c)]**

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid oedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, roedd yn ofynnol i'r perchennog:

- Sicrhau (a) bod lles disgyblion yn yr ysgol annibynnol yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo trwy greu a gweithredu polisi asesu risg ysgrifenedig yn effeithiol, sy'n cynnwys asesu'r gweithgareddau a wneir y tu allan i safle'r ysgol annibynnol, a (b) bod camau priodol yn cael eu cymryd i leihau'r risgiau a nodwyd. **[8]**
- Hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion trwy sicrhau bod (a) polisi ymddygiad ysgrifenedig yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol sydd (i) yn annog ac yn gwobrwyo ymddygiad da, (ii) yn amlinellu'r cosbau a fydd yn

cael eu mabwysiadu os yw disgybl yn camymddwyn, (iii) yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, a (b) bod cofnod yn cael ei gadw o'r cosbau a osodwyd ar ddisgyblion am gamymddwyn difrifol. **[11]**

- Sicrhau bod cofrestrau derbyn a phresenoldeb yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 434 Deddf 1996 (1). **[17]**

Yn dilyn yr ymweliad hwn, gofynnwyd i'r ysgol greu cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ym mis Mawrth a mis Mehefin 2024 i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn ei chynllun gweithredu. Yn ddiweddarach, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Tachwedd 2024 i werthuso cydymffurfiad yr ysgol â'r safonau nad oedd yn cydymffurfio â nhw yn y gorffennol.

## Prif ganfyddiadau

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr ac athrawon wedi gweithio'n ddiflino i gryfhau gwaith yr ysgol. Mae gan staff synnwyr cryf o ddiben ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i hyrwyddo addysg a lles disgyblion.

Mae perthnasoedd athrawon a disgyblion yn barchus ac yn adeiladol. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i ymagwedd ofalgar ac ymroddgar staff. Mae athrawon, staff cymorth a therapyddion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu amgylcheddau dysgu cefnogol. Dros gyfnod, mae'r perthnasoedd gwaith cryf rhwng disgyblion a staff yn helpu gwella hyder a lles disgyblion. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion wedi eu cymell yn dda ac yn ymgysylltu'n dda â dysgu.

Mae staff o'r cartref preswyl cysylltiedig i blant yn darparu cymorth ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rhan mewn cefnogi datblygiad dysgu a medrau disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Ymhellach, nid yw'r dysgu proffesiynol i staff cymorth ddeall eu rôl mewn cefnogi dysgu ac anghenion dysgu disgyblion unigol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy ystod eang o weithgareddau addysgol, yn cynnwys addysg awyr agored. Mae disgyblion wedi gwneud ymweliadau gwerthfawr â sefydliadau cyhoeddus fel llyfrgelloedd, amgueddfeydd a gorsafoedd tân. Yn ychwanegol, mae'r ysgol bellach yn elwa ar gymorth rheolaidd gan swyddog cymunedol yr heddlu sy'n cyflwyno sesiynau defnyddiol yn rhan o'r rhaglen gwasanaethau, er enghraifft deall hiliaeth a phwysigrwydd cynwysoldeb a goddefgarwch. Megis dechrau datblygu y mae mwy o ymweliadau addysgol i gefnogi cwricwlwm ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn rhan o'u fframwaith asesu newydd. Mae hyn wedi egluro ymagwedd yr ysgol at asesu ac wedi gwella dealltwriaeth yr ysgol o'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod yn yr ysgol.

Mae athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen i ddisgyblion ei ddysgu o ran eu prif anghenion a'u nodau yn y dyfodol, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio'r cynllunio. Mae disgyblion yn gweithio gydag athrawon i greu cynlluniau dysgu personol gwerthfawr. Fodd bynnag, nid yw prosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod targedau'n briodol ac yn ddigon heriol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion o ran eu presenoldeb a'u hymddygiad yn dda. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn rheolaidd i wirio patrymau ymddygiad, ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r tîm ehangach i'w cynorthwyo i gynllunio strategaethau priodol ar gyfer gwelliannau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac mae wedi arwain at ostyngiad nodedig yn yr achosion o ymddygiadau gwael yn yr ysgol.

Mae gan aelodau staff gyfrifoldebau clir ac maent yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae eu dosbarthiad o ymrwymiadau addysgu, ynghyd â meysydd cyfrifoldeb penodol eraill, yn cael effaith negyddol ar ychydig o staff ac yn cyfyngu ar gynaliadwyedd gwelliannau i'r ysgol.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae’r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

**Darparu gwybodaeth**

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

**Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2025